O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1484 (Cy. 183)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Llanwrtyd a'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *31 Mai 2012*

Yn dod i rym *6 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Llanwrtyd a'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 6 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A483 rhwng Llanwrtyd a'r Drenewydd yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen ar yr adegau y mae'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 31 Mai 2012

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Berth-lwyd i Black Bridge

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Ffosyrhyddod i bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U0096.

Pencerrig

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1358 i ganolbwynt ei chyffordd â'r C1357.

Diserth i Frynsadwrn

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1233 i ganolbwynt ei chyffordd â'r U1314.

Hawy i Landrindod

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U1522 i ganolbwynt ei chyffordd â'r U1682.

Llanddewi i Abercamddwr

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1058 i ganolbwynt ei chyffordd â'r U1133.

Ffordd Dolfor, Y Drenewydd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2061 i ganolbwynt ei chyffordd â'r A489.